Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cod Ymarfer sy'n Llywodraethu'r Berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Ebrill 2014

www.wao.gov.uk

Cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar XX XXXX 2014.

Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae'n cael ei osod gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr un ddarpariaeth.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Isobel Garner (Cadeirydd), Steven Burnett, David Corner, Christine Hayes, Peter Price a Huw Vaughan Thomas[1]
**Swyddfa Archwilio Cymru**

1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 1(2)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn rhinwedd ei swydd. Fodd bynnag, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn endid cyfreithiol ar wahân.

# Cynnwys

Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 4

Diben 4

Egwyddorion i lywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru 6

Gofyniad i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru 7

Prosesau ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau penodol, cynnal safonau llywodraethu corfforaethol a datrys gwrthdaro 7

Atodiad - Trosolwg o gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 13

# Cod Ymarfer sy’n ymdrin â’r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

**Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol cael Cod Ymarfer i ymdrin â’r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol, gan gadw annibyniaeth y swydd honno’n a darparu ar gyfer safonau llywodraethu cadarn ar yr un pryd.**

**Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol adolygu’r Cod yn rheolaidd a’i ddiwygio yn unol â hynny. Felly bydd Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol yn adolygu’r Cod ym mis Ebrill 2015.**

## Diben

1 Fel sy’n ofynnol gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (‘Deddf 2013’), mae’r Cod Ymarfer hwn (‘y Cod’) yn ymdrin â’r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru) ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae’r Cod yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar ôl ei gymeradwyo, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru a’r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â’i ddarpariaethau.

2 O dan Ddeddf 2013, mae swydd Archwilydd Cyffredinol yn gorfforaeth undyn. Mae deiliad y swydd yn bersonol gyfrifol am swyddogaethau archwilio ac arolygu mewn perthynas ag amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran sut y mae’r swyddogaethau hynny yn cael eu harfer, yn amodol ar ddilyn yr arferion proffesiynol gorau, ystyried cyngor a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru a gweithredu’n effeithlon ac yn gost-effeithiol.

3 Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru fonitro sut y caiff swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol eu harfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol fel sy’n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff, sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu darparu, dal eiddo, dal dogfennau a chadw cofnodion.

4 O dan y Ddeddf, mae’r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â bod yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu arni. Felly mae gan yr Archwilydd Cyffredinol rôl ddeuol o (i) corfforaeth undyn sy’n gyfrifol am ei swyddogaethau archwilio ac arolygu statudol ei hun a (ii) rôl allweddol yn y corff a sefydlwyd i ddarparu adnoddau a chyngor iddo a monitro ei weithgareddau. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi prif rolau cyffredin a phenodol yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill o’r Bwrdd. Mae’r Atodiad yn rhoi rhagor o fanylion am gyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Tabl 1 - Prif rolau cyffredin a phenodol yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill o'r Bwrdd

| Aelod o'r bwrdd | Prif gyfrifoldebau |
|---|---|
| Pob Aelod | Arfer ar y cyd swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru, ee, yn bennaf:<br>• darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys cyflogi staff a sicrhau gwasanaethau; a<br>• phennu Cynllun Ffioedd a chodi ffioedd |
| Pob Aelod ac eithrio'r Archwilydd Cyffredinol | Monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol o ran arfer ei swyddogaethau.<br>Paratoi ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol Adroddiad Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru, y Cynllun Blynyddol a'r Cod Cydberthynas. |
| Pob Aelod Anweithredol | Pennu a gosod telerau ar gyfer Aelodau 'Penodedig' ac Etholedig y Gweithwyr |
| Cadeirydd | Arfer swyddogaethau ymhlyg Cadeirydd (ee, cadeirio cyfarfodydd).<br>Gosod y Cynllun Blynyddol ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol.<br>Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi a gosod adroddiadau ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Archwilydd Cyffredinol | Arfer swyddogaethau archwilio ac ati.<br>Arfer swyddogaethau ymhlyg (a dirprwyedig) Prif Weithredwr.<br>Arfer swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu (ee, paratoi cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru).<br>Argymell unigolyn i fod yn Aelod Penodedig. |
| Aelod-gyflogai Penodedig | Fel y rhesi Pob Aelod uchod (yn ymarferol bydd yr Aelod hwn yn tueddu i gynorthwyo'r Archwilydd Cyffredinol ar y Bwrdd). |
| Aelod-gyflogai Etholedig | Fel y rhesi Pob Aelod uchod. |

5 Mae'r Ddeddf yn creu sefyllfa lle ceir perthynas gymhleth rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a gweddill Swyddfa Archwilio Cymru. O ganlyniad, ni fydd pob agwedd ar arfer ac ymddygiad bwrdd masnachol safonol yn briodol yn Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Mae'r Cod hwn wedi'i gynllunio i ddelio â'r sefyllfa gymhleth hon. Ei ddiben craidd yw sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn parchu, yn diogelu ac yn amddiffyn annibyniaeth archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac yn darparu safonau llywodraethu uchel i'r sefydliad y mae gan sector cyhoeddus Cymru a phobl Cymru yr hawl i'w disgwyl. Mae'n nodi:

a egwyddorion cyffredinol i lywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a gweddill Swyddfa Archwilio Cymru;

b gofyniad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Swyddfa Archwilio Cymru; a

c phrosesau ar gyfer cynnal swyddogaethau statudol penodol a chynnal safonau llywodraethu corfforaethol a datrys gwrthdaro.

## Egwyddorion i lywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru

7 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn yr egwyddorion canlynol wrth ymwneud â'i gilydd:

a cydweithio gyda'r nod cyffredin o gynnal sefydliad archwilio cyhoeddus effeithiol sy'n cyflwyno adroddiadau er mwyn galluogi cyrff cyhoeddus i gael eu dwyn i gyfrif am stiwardio adnoddau cyhoeddus;

b diogelu annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol;

c sicrhau y cedwir at safonau archwilio moesegol a phroffesiynol;

ch gweithredu a dangos safonau llywodraethu corfforaethol uchel;

d cydnabod a pharchu rolau penodol yr aelodau, gan gynnwys peidio â cheisio gweithredu y tu hwnt i'w priod swyddogaethau a nodir mewn statud (neu sy'n briodol gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny);

dd gweithio mewn ffordd agored ac adeiladol, gan barchu ei gilydd; a

e hysbysu ei gilydd am ddatblygiadau arwyddocaol o ran gweithredu'r sefydliad a'r amgylchedd y mae'n gweithio ynddo.

## Gofyniad i gydymffurfio â Chod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

8 Er mwyn diogelu annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol, mae'n bwysig bod holl aelodau Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Cod Ymddygiad hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol dilyn y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sydd wedi'u nodi yn y Cod hwnnw), safonau uchel o ymddygiad personol, gan gynnwys mewn perthynas ag osgoi achosion o wrthdaro buddiannau ariannol a gwleidyddol ac achosion eraill o wrthdaro buddiannau. Mae cadw at y Cod Ymddygiad yn gymaint o ofyniad y Cod Cydberthynas hwn â'r gofynion mewn perthynas â swyddogaethau penodol a nodir isod.

## Prosesau ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau penodol, cynnal safonau llywodraethu corfforaethol a datrys gwrthdaro

9 Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw monitro sut y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer (adran 17(1) a (2) o'r Ddeddf) a chynghori ar hyn a darparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (adran 21 o'r Ddeddf), ee, drwy gyflogi staff. Yn ogystal, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau penodol y mae'n rhaid iddi ei eu harfer ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, megis paratoi'r amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau. Mae'r adran hon yn rhoi sylw i sut y dylai swyddogaethau allweddol, lle mae gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol rolau statudol penodol, gael eu cyflawni.

### Y Cynllun Blynyddol (Adran 25 o'r Ddeddf)

10 Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun blynyddol ar y cyd ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i gynlluniau o'r fath roi manylion am raglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru (hy, y blaenoriaethau yn y flwyddyn ar gyfer arfer swyddogaethau statudol), yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael a sut y byddant yn cael eu defnyddio i gefnogi'r rhaglenni hynny.

11 Er mwyn hwyluso cynllunio ar gyfer y tymor hwy, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru, mewn cydweithrediad agos, yn nodi eu priod nodau strategol ac yn datblygu cynllun strategol cydgysylltiedig ar gyfer arfer a datblygu'n barhaus eu priod swyddogaethau. Bydd y cynllun strategol yn cael ei lunio ar sail datblygiad a gweithrediad y sefydliad cyfan. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn troi'r cynllun strategol yn gynlluniau busnes blynyddol er mwyn ysgogi gweithrediadau. Bydd y cynlluniau busnes yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae statud yn ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei darparu yn y Cynllun Blynyddol.

12 Cyn dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun strategol a'r cynlluniau busnes blynyddol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn trafod ei (h)ystyriaethau cychwynnol gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried cyngor a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y trafodaethau hynny.

13 Bydd y Cynllun Blynyddol yn cael ei ddrafftio gan yr Archwilydd Cyffredinol gyda chymorth gan staff Swyddfa Archwilio Cymru fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Caiff ei lunio drwy ddefnyddio deunydd perthnasol o strategaeth a chynlluniau busnes y sefydliad. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried fersiwn drafft yr Archwilydd Cyffredinol ac yn cymeradwyo'r

cynllun, ar ôl gwneud unrhyw addasiadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru i'r graddau bod y rhain yn cyd-fynd â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Yn unol ag adran 8 o Ddeddf 2013 (disgresiwn yr Archwilydd Cyffredinol), ni all Swyddfa Archwilio Cymru addasu rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r gofyniad cysylltiedig o ran adnoddau. Dim ond yr Archwilydd Cyffredinol a all wneud newidiadau i raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.

14 Gall rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol gynnwys gwaith a wneir gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a/neu'r corff dan sylw (er enghraifft, archwiliadau o dan baragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) neu ar eu cais, neu, gyda chytundeb Swyddfa Archwilio Cymru, o dan adran 19 o'r Ddeddf. Cyn cytuno ar waith o'r fath, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch pa mor ddymunol yw gwneud y gwaith a sut y darperir adnoddau ar ei gyfer, ac yn ystyried ei barn. Yn achos gwaith o dan adran 19 o'r Ddeddf, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cytuno ar waith ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, yn amodol ar Swyddfa Archwilio Cymru yn dirprwyo'r swyddogaeth honno. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y disgresiwn i wrthod unrhyw waith cytundeb os bydd o'r farn bod yr adnoddau tebygol a fydd ar gael yn annigonol.

15 Bydd y Cadeirydd (ar ran Swyddfa Archwilio Cymru) a'r Archwilydd Cyffredinol ar y cyd yn gosod y cynllun gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y gall ei bwyllgor perthnasol ei gynnal arno.

16 O dan adran 27 o'r Ddeddf, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu rhwymo gan y cynllun blynyddol ond rhaid iddynt ei ystyried wrth arfer eu swyddogaethau.

17 Yn ystod y flwyddyn ariannol, gall yr Archwilydd Cyffredinol ddiwygio ei raglen waith i ystyried amgylchiadau sy'n newid. Bydd yn hysbysu Swyddfa Archwilio Cymru am unrhyw newidiadau a goblygiadau tebygol o ran adnoddau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru ac yn ystyried ei barn cyn gwneud unrhyw newidiadau o ran gwaith a wneir drwy gytundeb.

## Amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau (Adran 20 o'r Ddeddf)

18 Bydd yr amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau yn darparu ar gyfer yr adnoddau sy'n ofynnol i gwmpasu'r gwariant cyfalaf a refeniw (gan gynnwys costau nad ydynt yn arian parod) yr eir iddynt gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.

19 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu ar y gyllideb adnoddau sydd ei hangen ar gyfer ei raglen waith. Bydd y cyllid sy'n ofynnol yn arwystl cyntaf ar yr adnoddau a ddyrennir i Swyddfa Archwilio Cymru. Ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu diwygio'r rhan honno o'r gyllideb heb gytundeb yr Archwilydd Cyffredinol, (fodd bynnag, gweler paragraff 13 uchod o ran gwaith a wneir gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a/neu'r corff dan sylw neu ar eu cais).

20 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ar y cyd yn gosod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y gall ei bwyllgor perthnasol ei gynnal arno.

21 Bydd y pwyllgor perthnasol yn ystyried yr amcangyfrif ac yn gwneud unrhyw addasiadau y mae'n eu hystyried sy'n briodol ar ôl ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio

2 Ni fydd yn ofynnol cael cymeradwyaeth y pwyllgor perthnasol os yr unig ddiwygiad yw ymgorffori graddfa ffioedd a ragnodwyd gan Weinidogion Cymru (mae Adran 24(5) a (6) o'r Ddeddf yn cyfeirio at hyn)..

Cymru. O dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, bydd yr amcangyfrif yn cael ei ymgorffori yn y Cynnig Blynyddol ar y Gyllideb sy'n rhoi awdurdod statudol ar gyfer defnyddio adnoddau.

## Diweddaru cynllun ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru (Adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf)

22 O dan adran 23, gall Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am waith archwilio penodol a wneir ar ran yr Archwilydd Cyffredinol neu ganddo ac am wasanaethau y mae'n eu darparu o dan Adran 19. Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffioedd am wasanaethau ac astudiaethau penodol eraill a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dim ond yn unol â chynllun a baratoir o dan Adran 24 y gellir codi'r holl ffioedd. Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru adolygu'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn.

23 O leiaf unwaith y flwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn paratoi papur ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru gan nodi unrhyw newidiadau y mae o'r farn sydd eu hangen i'r cynllun ffioedd. Gall hyn, er enghraifft, fod yn angenrheidiol pan fo deddfwriaeth yn diddymu rhai cyrff gan adael yr angen am ailddosrannu gorbenion ymhlith y cyrff sy'n weddill. Gall y Bwrdd dderbyn neu addasu cynigion yr Archwilydd Cyffredinol ond rhaid iddo ystyried y gofyniad adnoddau a benderfynir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ei raglen waith.

24 Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru osod unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun ffioedd gerbron y Cynulliad. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y bydd y pwyllgor perthnasol yn ei gynnal ar y cynllun ffioedd diwygiedig cyn penderfynu a fyddant yn ei gymeradwyo[2].

## Darparu gwasanaethau (Adran 19 o'r Ddeddf)

25 O dan Adran 19, gall Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau gydag awdurdod arall mewn perthynas ag arfer swyddogaethau neu ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, gallai Swyddfa Archwilio Cymru drefnu i staff Swyddfa Archwilio Cymru gynorthwyo archwilydd awdurdod lleol yn Lloegr i lunio adroddiadau er budd y cyhoedd. Cyn gwneud unrhyw drefniadau o'r fath, bydd y Bwrdd yn ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol ac yn ystyried unrhyw effaith bosibl ar arfer swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol. Er mwyn rhoi sylw dyledus i Adran 8 o'r Ddeddf, ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bwrw ymlaen â threfniant os gallai'r trefniant hwnnw danseilio annibyniaeth a gwrthrychedd gwirioneddol neu ganfyddedig yr Archwilydd Cyffredinol. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol bwrw ymlaen â threfniant lle byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn trefnu i staff Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu gwasanaethau, fel cymorth yng ngweithrediad y gyflogres, i gyrff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol, oherwydd gallai hyn arwain at wrthdaro o ran hunanadolygu.

## Monitro a chynghori ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (Adran 17(1) a (2) o'r Ddeddf) mewn perthynas â'r rhaglen waith

26 O dan adran 8 o Ddeddf 2013, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran cyflawni swyddogaethau'r swydd honno yn amodol ar gynnal y swyddogaethau hynny yn effeithlon ac yn gost-effeithiol a chan ystyried safonau a chyngor proffesiynol a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ystod pob blwyddyn ariannol, gall Swyddfa Archwilio Cymru gynghori'r Archwilydd Cyffredinol a rhaid iddi fonitro'r swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol o ran ei raglen waith. Bydd y prosesau fel a ganlyn.

a Yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Swyddfa Archwilio Cymru i fonitro:

i cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen waith a gymeradwywyd;

ii alldro yn erbyn y cyllidebau a gymeradwywyd; a

iii pha mor effeithlon ac effeithiol y caiff swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol eu harfer a'r ffordd y caiff y sefydliad ei reoli'n gyffredinol.

b Bydd yr Archwilydd Cyffredinol fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu yn rhoi diweddariadau amserol i'r Bwrdd ar unrhyw faterion sy'n cael effaith arwyddocaol ar arfer swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn briodol. Gall materion o'r fath gynnwys ansawdd gwaith proffesiynol, enw da y sefydliad a chydberthnasoedd â rhanddeiliaid.

c Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried adroddiadau cynnydd yr Archwilydd Cyffredinol a gall gynnig cyngor ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, y mae'n rhaid iddo/iddi eu hystyried. Yn ogystal â'r blaenoriaethau a nodwyd yn rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol, efallai y bydd cyngor o'r fath hefyd yn ymwneud â threfniadau ar gyfer cynnal gwaith archwilio megis y Cod Ymarfer Archwilio (Adran 10 o'r Ddeddf), dirprwyo swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (Adran 18) a chynnal cydberthnasau gwaith gyda chyrff archwiliedig a'r Cynulliad Cenedlaethol.

ch Os bydd angen mwy o adnoddau ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith na'r hyn a amcangyfrifwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno cynigion ar gyfer sut y dylid cyllido'r gwaith.

d Dyma'r opsiynau i gyllido adnoddau ychwanegol ar gyfer eitemau yn rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol:

i dod o hyd i arbedion digolledu o fewn y rhaglen drwy ddileu eitemau eraill (os yw hynny'n bosibl) neu ohirio gwaith tan y flwyddyn ariannol ddilynol;

ii diwygio rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru;

iii cynyddu unrhyw ffioedd y gellir eu codi (yn amodol ar Adran 23(5) o'r Ddeddf); neu

iv ceisio cymeradwyaeth am adnoddau ychwanegol gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy un o gynigion cyllidebol atodol y Cynulliad Cenedlaethol.

dd Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried cynigion yr Archwilydd Cyffredinol ac yn rhoi cyngor, y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ei ystyried. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ar y cyd yn mynd ar drywydd y ffordd ymlaen a ystyrir yn briodol.

## Cyfrifon ac archwilio Swyddfa Archwilio Cymru (Paragraffau 33 i 35 o Atodlen 1 i'r Ddeddf)

27 Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn rhinwedd paragraff 33(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 ac, yn hynny o beth, mae'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon blynyddol, cadw cofnodion ariannol priodol, a chyfrifoldebau eraill fel y nodwyd gan bwyllgor perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol.

28 Bydd y Bwrdd yn ystyried y cyfrifon blynyddol a baratoir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan ystyried barn y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Yna bydd y Bwrdd yn argymell i'r Archwilydd Cyffredinol a ddylai lofnodi'r cyfrifon ai peidio.

29 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y dymuna'r pwyllgor perthnasol ei gynnal mewn perthynas â chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

## Adroddiadau blynyddol ac interim (Paragraff 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf)

30 Bydd yr adroddiadau blynyddol ac interim yn trafod y swyddogaethau sy'n cael eu harfer gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r rhaglenni a nodir yn y Cynllun Blynyddol.

31 Bydd yr adroddiadau yn cael eu drafftio gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn ymgynghoriad â Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo'r adroddiadau ar ôl ceisio barn y Bwrdd a gwneud unrhyw addasiadau sy'n briodol yn eu barn hwy.

32 Bydd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol ar y cyd yn gosod yr adroddiadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y gall ei bwyllgor perthnasol ei gynnal arnynt.

## Cynnal safonau llywodraethu corfforaethol

33 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal systemau llywodraethu a rheolaethau mewnol sy'n gyson ag arfer gorau (gan gynnwys y Cod Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan y Trysorlys). Er enghraifft, gan ystyried cyngor a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru (wedi ei gyfeirio gan ei Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg), bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal archwiliad mewnol cymesur.

34 Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro a yw'r systemau yn gweithredu'n effeithiol, a bydd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiadau ar y trefniadau yn eu hadroddiadau blynyddol. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru, gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn arwain yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, ac yn cynnal ei busnes mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu sefydlu pwyllgorau i ategu ei gweithrediad ac mae, yn arbennig, wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a Phwyllgor Cydnabyddiaeth.

## Cyhoeddusrwydd a gwneud sylwadau cyhoeddus eraill

35 Mae cyhoeddusrwydd a sylwadau ar adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol yn agweddau ychwanegol annatod ar swyddogaethau adrodd cyhoeddus yr Archwilydd Cyffredinol. Yn yr un modd, mae cyhoeddusrwydd a sylwadau ar gyhoeddiadau corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru, megis cynllun ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru, yn agweddau ychwanegol hanfodol ar swyddogaethau cyhoeddi o'r fath. Oherwydd bod gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau cyhoeddi sy'n eithaf penodol, ac na ddylid drysu eu rolau, mae'n bwysig bod yn glir ynghylch pa bartïon a all roi cyhoeddusrwydd a gwneud sylwadau cyhoeddus mewn perthynas â swyddogaethau penodol.

36 Ni all y Cadeirydd a swyddogion anweithredol eraill Swyddfa Archwilio Cymru wneud sylwadau ar farn a dyfarniad archwilio, gan gynnwys dewis a chynllunio archwiliadau gwerth am arian, sy'n faterion i'r Archwilydd Cyffredinol. Gall y Cadeirydd a swyddogion anweithredol eraill Swyddfa Archwilio Cymru (gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd) wneud sylwadau cyhoeddus ar agweddau eraill (h.y. nad ydynt yn ymwneud ag archwilio) ar waith Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac ar lywodraethu'r sefydliad. Lle bynnag y bo'n ymarferol bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r Cadeirydd ar unrhyw sylw cyhoeddus y mae'n bwriadu ei wneud ar ran Swyddfa Archwilio Cymru lle y mae sylw o'r fath yn ymwneud â materion heblaw ei swyddogaethau archwilio.

## Datrys anghydfodau

37 Yn achos anghytundeb rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd y Bwrdd, cyfeirir mater yr anghydfod at yr aelodau i'w ddatrys mewn cyfarfod o'r Bwrdd ac eithrio materion sy'n ymwneud â swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol (lle y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud penderfyniad terfynol).

# Atodiad - Trosolwg o gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

## Archwilydd Cyffredinol

1 Mae swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi'i sefydlu fel corfforaeth undyn. Mae deiliad y swydd yn bersonol gyfrifol am arfer amrywiaeth o swyddogaethau archwilio ac arolygu o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a deddfiadau amrywiol eraill.

2 O dan Adran 8 o Ddeddf 2013, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y ffordd y caiff swyddogaethau'r swydd honno eu harfer ond rhaid iddo:

- a ceisio cynnal y swyddogaethau hynny yn effeithlon ac yn gost-effeithiol;
- b ystyried y safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol gwasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn; ac
- c ystyried cyngor a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y dylid cynnal rhai o'i swyddogaethau penodol.

4 Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo ei swyddogaethau statudol i gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ac unigolion eraill sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru. Dim ond os yw'r cyflogai neu'r unigolyn arall yn cael ei awdurdodi o dan gynllun a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol y gellir dirprwyo swyddogaeth. Wrth baratoi neu ddiwygio cynllun, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Yr Archwilydd Cyffredinol yw Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru hefyd gyda chyfrifoldeb am gadw cofnodion ariannol a pharatoi adroddiadau blynyddol yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys. Pennir Cynulliad Cenedlaethol yn nodi cyfrifoldebau pellach y Swyddog Cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau penodol aelodau anweithredol

6 Mae'r aelodau anweithredol yn gyfrifol am:

- a penodi (os bernir ei fod yn addas) yr aelod-gyflogai a argymhellir gan yr Archwilydd Cyffredinol;
- b penodi dau aelod o'r gweithwyr a etholwyd yn unol â chanlyniad pleidlais staff;
- c penderfynu ar delerau'r penodiad ar gyfer yr aelodau sy'n weithwyr; ac
- d ystyried a ddylid terfynu penodiad aelod-gyflogai os bydd un o'r amodau a nodwyd ym mharagraff 21 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 yn digwydd.

## Cyfrifoldebau penodol y Cadeirydd

7 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am:

- a paratoi rheolau cychwynnol i lywodraethu gweithdrefn Swyddfa Archwilio Cymru tan i'r Bwrdd gymeradwyo ei rheolau parhaol;
- b cyflwyno'r cyfrifon (ar gyfer 2014-15 ymlaen) a baratowyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru;
- c ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi a gosod adroddiadau interim a blynyddol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;

ch ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, gosod y Cod Ymarfer Cydberthnasau a'r Cynllun Blynyddol;

d rheoli trafodion y Bwrdd, gan gynnwys sicrhau bod yr holl aelodau'n cael y cyfle i gyfrannu at drafodaeth gytbwys a phriodol o faterion;

dd cynnal arfarniadau perfformiad o holl aelodau'r Bwrdd ac Ysgrifennydd y Bwrdd, yn unigol ac ar y cyd, gan gynnwys drwy ddefnyddio adnoddau annibynnol allanol priodol;

e gwneud argymhellion i'r awdurdod penodi perthnasol o ran aelodau anweithredol eraill a'r aelod-gyflogai penodedig ynglŷn â'u parhad neu eu terfyniad yn seiliedig ar berfformiad a chydymffurfio â chod ymddygiad y Bwrdd.

## Cyfrifoldebau cyffredinol y Bwrdd (gan gynnwys yr Archwilydd Cyffredinol)

8 Dyletswydd y Bwrdd yw darparu arweinyddiaeth ar y cyd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffordd sy'n cyd-fynd â dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu a'i swyddogaethau statudol. Yn arbennig, rhaid iddo:

a Mewn cydweithrediad a thrafodaeth agos â'r Archwilydd Cyffredinol ac uwch-swyddogion:

i Nodi amcanion strategol perthnasol i Swyddfa Archwilio Cymru a datblygu gyda'r Archwilydd Cyffredinol gynllun strategol cydgysylltiedig ar gyfer arfer a datblygu swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn barhaus.

ii Throi'r cynllun strategol yn gynlluniau busnes blynyddol i ysgogi gweithrediadau (bydd y cynlluniau busnes yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'n ofynnol drwy statud i'w darparu yn y Cynllun Blynyddol). Gall y Bwrdd gynghori ar gyfanrwydd y cynlluniau strategol a busnes ond ni all benderfynu ar agweddau swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

b Cynghori ar ddyrannu adnoddau ariannol a dynol i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny.

c Goruchwylio rheoli adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru a monitro cyflawni a chyflwyno amcanion perfformiad.

ch Pennu safonau a gwerthoedd Swyddfa Archwilio Cymru (ond heb effeithio ar safonau archwilio proffesiynol).

d Sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal systemau cryf a thryloyw o lywodraethu a rheolaethau mewnol sy'n gyson ag arfer gorau, a monitro ac adrodd ar eu gweithrediad effeithiol yn Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (a baratoir ar y cyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru).

dd Gyda'r Archwilydd Cyffredinol yn arwain fel Swyddog Cyfrifyddu, nodi a rheoli risgiau'n effeithiol.

e Cynghori ar brosesau newid a'u goruchwylio, gan annog arloesi, i wella gallu Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni.

f Cynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

ff Rhoi sylw dyledus i gynllunio ar gyfer olyniaeth a bodloni ei hun bod cynlluniau ar waith i gynnal cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd, ei Bwyllgorau ac yn y sefydliad.

g Awdurdodi (neu gadarnhau, os yw'n briodol) y defnydd o'r Sêl Gorfforaethol.

9 Dylai'r Bwrdd fodloni ei hun ei fod yn cael gwybodaeth amserol ar ffurf ac ansawdd sy'n briodol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau o ran holl weithgarwch Swyddfa Archwilio Cymru. Dylai gwybodaeth o'r fath gynnwys:

a gwybodaeth reoli fisol sy'n ymwneud â'r defnydd gwirioneddol o adnoddau ariannol a dynol yn ogystal â rhagolygon cyfnodol yn ystod y flwyddyn o'r alldro disgwyliedig yn erbyn cyllidebau ariannol gwariant adnoddau a chyfalaf, incwm a gwybodaeth amlwg am y fantolen;

b cynnydd mewn perthynas ag allbynnau a chanlyniadau (targedau perfformiad); a

c nodi a rheoli risg.

## Cyfrifoldebau unigol penodol y Bwrdd

10 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:

a gwneud rheolau at ddiben rheoleiddio ei weithdrefnau ei hun;

b dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru lle y caniateir iddo wneud hynny;

c gwneud argymhelliad i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â phenodi archwilydd allanol i Swyddfa Archwilio Cymru;

ch paratoi cynllun, i'r Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo, sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru; ac am adolygu (a diwygio os yw'n angenrheidiol) y cynllun hwnnw o leiaf unwaith y flwyddyn;

d dynodi (gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol) unigolyn i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro os bydd y swydd yn wag neu os yw'r Archwilydd Cyffredinol sy'n ddeiliad y swydd yn amharod i gyflawni ei swyddogaethau neu'n methu â gwneud hynny;

dd gwneud trefniadau gydag awdurdodau perthnasol o dan Adran 19 o Ddeddf 2013 yn amodol ar ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol pan fydd angen;

e gwneud darpariaeth am unrhyw daliadau ychwanegol i'w gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer treuliau yr aeth iddo yn briodol ac yn angenrheidiol yn rhinwedd bod yn Aelod o'r Bwrdd ac yn Brif Weithredwr;

f darparu adnoddau i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol;

ff cyflogi staff i gynorthwyo o ran arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

g caffael gwasanaethau at ddibenion swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;

ng cadw dogfennau neu wybodaeth a gafodd ei chywaiin yn ystod gwaith at ddibenion swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu fel arall; a

h chadw cofnodion mewn perthynas â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.

## Cydgyfrifoldebau penodol Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol

11 Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am:

- a Paratoi a gosod amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, y mae'n rhaid iddynt gwmpasu'r adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau.
- b Paratoi Cynllun Blynyddol.
- c Paratoi Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Ar ôl ei gymeradwyo gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru gydymffurfio â'r Cod a'i adolygu'n rheolaidd. Rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r Cod hefyd gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn iddo ddod i rym.

## Cydgyfrifoldebau penodol y Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol

12 Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Cadeirydd hefyd yn gyfrifol am:

- a Gosod y Cynllun Blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
- b Gosod Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol.
- c Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, paratoi a gosod Adroddiad Blynyddol ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Cynllun Blynyddol.
- ch Paratoi a gosod, o leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol, adroddiad interim ar arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y Cynllun Blynyddol. Efallai y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn am adroddiadau interim pellach yn ystod y flwyddyn a bydd angen penderfynu ar y dyddiadau y dylid eu gosod gerbron y Cynulliad.